YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1900. [RHIF 145.

CHANNING HOUSE SCHOOL.

DYMA ddarlun o dŷ Ysgol i ferched Undodiaid a gychwynwyd yn 1885 gan Miss Matilda Sharpe a'i chwaer, gyda chynorthwy y diweddar Barch. Robert Spears. Fe welir wrth y darlun nad oes cost wedi ei arbed, ac y mae'r holl ddarpariaethau mewnol yn cyfateb i'r olwg allanol. Ceir yma *staff* o ddeg o athrawesau, heblaw yr athrawon achlysurol a



ddeuant i ddysgu pynciau neillduol. Y mae yma le i letya (*board*) 80, ac y mae yma'n bresenol tua 56, a thros 50 o *day scholars*. Y mae'r mudiad hwn wedi bod o fendith i'r enwad; o ddiffyg lle o'r fath yn y gorphenol, collwyd llawer oherwydd anfon y plant i ysgolion Eglwysig, a'u troi allan yn Eglwyswyr. Da genym fod mudiad ar droed yn awr i gael Ysgol gyffelyb i fechgyn. Nid ydys wedi symud un fynyd yn gynt nag a ddylid. Collwn y plant yn barhaus o'n plith o ddiffyg Ysgol o'r fath.

PRIODOLEDDAU DUW.

(*Parhad o Rifyn Hydref*, 1899.)

OND yr hyn sydd wedi cadarnhau fwyaf yr athrawiaeth o Undod Duw yn ein dyddiau ni yw darganfyddiadau diweddaf Gwyddor, trwy ba rai yr ydys wedi dyfod i weled mai un yw y gallu sydd yn llywio y bydysawd mawr i gyd—yr un yw y gallu sydd i'w weled yn yr ystorm a'r daran ag yn nhyfiad y borfa a'r blodau—yn y gweithrediadau mwyaf mawreddog ag yn y rhai mwyaf distadl a gymer le yn natur.

Unoliaeth! dyma air diweddaf a mwyaf pwysig Gwyddor. Unoliaeth! dyma yw y gwirionedd syml, sef fod gwahaniaethau y byd materol yn mhob man wedi rhoddi ffordd i ymchwiliadau a phrofion Gwyddor, ac wedi dangos cyffelybrwydd ac unrhywiaeth hanfodol. A chan y gellir profi mai un mewn hanfod yw yr holl alluoedd geir yn natur, er yn fynych mor anhebyg i'w gilydd i'r dyn sydd yn edrych ar y wyneb yn unig, mae yn rhaid fod yr *Ewyllys* sydd tucefn i'r rhai hyn oll, ac i'r hon y maent yn ddyledus am eu bodolaeth, yn *Un* hefyd, yn anrhanedig, ac yn anrhanadwy. Pa fodd, ynte, y gall y galon Undodaidd beidio ymchwyddo gan lawenydd am y cadarnhad pwysig yma o'i meddyliau, yr Amen uchel yma i'w hathrawiaeth o Unoliaeth y Duwdod, sydd yn seinio ac yn adseinio o'r bryniau a'r dyfnderoedd, o eangderau ac o bethau mwyaf distadl y byd amrywiol ac ardderchog yma.

Mae yn bwysig i ni fel Undodiaid i gofio y ffaith hon, sef, er mai ar ol yr athrawiaeth yma o Undod Duw yr ydym wedi ac yn cael ein henwi, yn y dyb gyffredin, beth bynag, nad yw hi ond rhan, a rhan fechan hefyd, o feddwl a chymhlethiad (*implication*) y gair Undodiaeth. Yn wir, y mae gwir ystyr y gair—gair anwyl i lawer—wedi cyfnewid llawer iawn yn ddiweddar, ac yn awr y mae rhyddid ewyllys, barn, a llafar yn gymaint rhan ohono ag unrhyw feddwl arall.

Priodoledd arall a berthyn i Dduw yw Ei *gariad*. Yr ydym yn ddyledus am ddatguddiad o'r agwedd hon o gymeriad Duw, fel llawer agwedd arall, i Iesu Grist, yr Hwn a'n dysgodd ni i edrych arno fel Tad, yr Hwn sydd yn ein caru â chariad anfeidrol. Nid oedd yr Iuddewon, oddigerth rhyw nifer fechan, wedi cael gafael ar yr agwedd hon o gymeriad Duw, ond edrychent arno fel Duw partïol a phleidiol, chwanog i lid a digofaint—weithiau fel brenin creulawn a didrugaredd, ac, ar y goreu, yn cyfyngu Ei gariad i'w cenedl hwy. Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, dysgai Iesu fod Duw yn Dad cariadlawn a thrugarog, nid yn unig i'r Iuddewon, ond i bawb oll, beth bynag eu cenedl, eu hiaith, eu lliw, neu eu gwareiddiad. Mae Duw yn caru pawb yn ddiwahaniaeth, y drwg a'r da, y cyfiawn a'r anghyfiawn, y tlawd a'r cyfoethog, y dysgedig a'r annysgedig; nid yw Efe yn edrych ar

y muriau mae dynion wedi osod i fyny, ond maent oll iddo Ef fel plant yr un Tad mawr, a chydetifeddion o'r un wlad, a hono yn un nefol. Nid ydym i feddwl oddiwrth hyn fod Duw yn cymeradwyo gweithredoedd y drwg a'r anghyfiawn, am y gwyddom nad ydyw. Ond nid yw ein brodyr Iawnffyddol yn foddlawn ar y Duw hwn o gariad a thrugaredd a ddatguddiwyd i ni gan Iesu. Gwell ganddynt hwy fyned yn ol at Dduw y llid a'r digofaint, at Dduw y tân a'r brwmstan, a gawn ni son am dano yn yr Hen Destament, ag sydd bob amser yn apelio at deimladau a meddyliau cenedloedd neu lwythau yn eu mabandod, cenedloedd mewn gradd isel o wareiddiad. Credant hwy (h.y., yr Iawnffyddwyr) nad yw Duw yn Dad yn yr ystyr a roddwn ni i'r gair—i bawb o ddynolryw—ond yn unig i'r rhai hyny sydd yn dal rhyw opiniynau neu gredoau neillduol a gymeradwyir ganddynt hwy. Gwelir yr ysbryd cul, erledigaethus, a dallbleidiol yma yn Nghredo St. Athanasius, yr hon a ddywed, "Pwy bynag na chredo y gosodiadau hyn, diamheu y collir ef yn dragywydd." Dyma yw yr ysbryd sydd yn meddianu llawer o'n cyd-ddynion hyd yn nod y dydd heddyw—oni bydd i bawb gydsynio â'u golygiadau hwy, condemniant hwynt yn ddibetrus i'r tân tragywyddol. Dyma yw yr ysbryd sydd wedi lladd a llosgi llawer o ddynion da, goleuedig, a chydwybodol trwy yr oesau, a'r hwn na fyddai yn petruso llawer i wneyd hyny heddyw, pe bai y gallu ganddo. Diolch i Dduw nad ydyw. Duw partiol, anghyfiawn, a chyfnewidiol yw Duw y dynion yma; yn awr yn llawn cariad a thangnefedd, ac yna mewn eiliad yn cael ei feddianu gan lid a digofaint. Mae hyn, yr wyf yn tybied, yn anmhosibl, oblegid mae pob priodoledd a berthyn i Dduw yn anfeidrol ac anghyfnewidiol; ac os yw cariad yn un o'r priodoleddau yma, fel y mae yn amlwg i bawb ei fod, nid yw yn bosibl fod Duw ar unrhyw adeg yn cael Ei feddianu gan lid neu ddigofaint, y rhai sydd yn hollol groes i gariad pur. Na, i mi, beth bynag, y mae yn annirnadwy fod y fath fôd a hyn yn bodoli; a phe byddai yn bodoli, ni allai enyn un gronyn o serch a chariad yn fy nghalon tuag ato. Mae yn eithaf gwir, fel y dywedwyd lawer gwaith, fod duw un dyn yn ddiafol i'r llall: ac yr wyf yn credu y byddwn i yn fwy tebygol o alw y bôd wyf wedi ddesgrifio—Duw llawer o'r Iawnffyddwyr—yn ddiafol nag yn Dduw. Mae yn anmhosibl, mi gredaf, i Dduw fod yn waeth, yn iselach, na dyn, yr hwn sydd wedi d'od i fodolaeth trwy Ei ewyllys Ef. O ba le y daeth y cariad, y tynerwch, y tosturi, a'r trugaredd ag sydd wedi gwneyd bywydau dynion a benywod aneirif, yn mhob oes a gwlad, mor brydferth ac yn syndod i'r byd? Mae yn anmhosibl i'r afon godi yn uwch na'i tharddle. Ac, hyd yn nod pe bai Duw wedi ein creu yn uniongyrchol, fel y dywedir yn Genesis, y mae y tuhwnt i amgyffred Iddo greu bôd yn well nag Ef Ei Hun. Ond pan y meddylir am dano fel ffynonell offerynol *(organic source)* pob bywyd, y mae yn fwy annirnadwy fyth fod bôd gwell nag Ef Ei Hun wedi dyfod allan ohono. Nis gellir dadblygu dim nad yw

yn gyntaf yn amblygedig—"Nothing is evolved that is not first involved." Fel canlyniad naturiol o'r ffaith fod Duw yn Dad i ni oll yn ddiwahaniaeth, y mae yn dilyn heb amheuaeth y casgliad ein bod ni yn frodyr ac yn chwiorydd i'n gilydd; ac fel brodyr, dylem ymddwyn tuag at ein gilydd fel y mae yn weddus ac yn ddyledswydd i berthynasau mor agos wneyd; dylem, mewn gair, wneyd i bawb ereill, beth bynag eu hiaith, eu gwlad, neu eu cenedl, fel y dymunem i ereill wneuthur i ninau, fel y byddom, trwy hyny, yn cyflawni cyfraith Duw, ac yn dyfod rywfaint yn fwy teilwng o gael ein galw yn blant Iddo.

Ac os yw Duw yn gariad, y mae yn canlyn fel effaith didroi-yn-ol Ei fod hefyd yn *gyfiawn*, oblegid y mae gwir gariad bob amser yn cynyrchu *cyfiawnder*—a dyma un arall o briodoleddau Duw, fel yr ydym ni yn synied am dano. Yn nghread ac yn llywodraethiad y bydysawd, y mae wedi rhoddi i lawr amryw ddeddfau anghyfnewidiol, ac nid ydyw yn caniatau unrhyw eithriad neu ymyriad yn ngweithrediad y deddfau yma. Y mae rhai pobl fel pe baent yn tybied nad oedd Duw yn alluog i wneuthur pobpeth i berffeithrwydd ar y cyntaf, ond fod yn rhaid iddo yn awr ac yn y man ddyfod i gymhwyso Ei waith cyntefig—i ymyryd yn ngweithrediadau y deddfau oedd wedi osod i lawr ar y cyntaf er llywodraethu y greadigaeth—fel pe byddai yn rhyw fath o *watchmaker*, yn gorfod dyfod yn awr ac eilwaith i gymhwyso peirianwaith ei oriawr; a galwant yr ymyriadau achlysurol yma ar ddeddfau natur neu ddeddfau Duw—oblegid Duw a'u rhoddodd neu eu gosododd ar y cyntaf—yn wyrthiau. Ond gwell genyf fi gredu yn uwch na hyn am ein Tad Nefol, yr Hwn sydd yn gweled y cyfan o'r dechreu, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto, ac felly yn sicr o fod yn gwybod er cyn seiliad y byd beth oedd oreu er ei les ac er ein lles ninau. Y mae y deddfau yma y mae Duw wedi roddi i lawr, ynte, yn anghyfnewidiol, ac yn hollol gyfiawn yn eu gweithrediad. Os rhoddwch eich bys yn y tân yn ddiorchuddiedig, mae yn sicr o gael ei losgi. Pan y mae dwy ran o ulnwy (*hydrogen*) yn cael eu hychwanegu at un ran o ufelnwy (*oxygen*), mae dwfr yn cael ei ffurfio bob amser ac o dan bob amgylchiad. Mae gan bob effaith ryw achos neillduol, a dim ond un gwir achos, i'r hwn y mae yn ddyledus am ei fodolaeth; ac yn yr un modd, y mae pob achos yn cael ei ddilyn gan ryw effaith hanfodol angenrheidiol, a dim ond un gwir effaith. Y mae yr hyn sydd yn wir am y byd materol yn wir hefyd am y byd moesol, crefyddol, ac ysbrydol. Mae pob effaith yma eto, gallwn fod yn sicr o hyny, yn cael ei ddwyn i ben gan ryw achos neillduol, ac ni ellir dileu yma, mwy nag yn y byd materol, effaith unrhyw achos a fyddo yn gweithredu ar ein bywydau. Y mae pob gweithred dda o'n heiddom yn ei gwneyd yn hawddach i ni wneuthur yr un peth yr ail waith, ac yn ein gwneyd yn well dynion a benywod: ac o'r tu arall, yr un mor sicr, y mae pob gweithred ddrwg a gyflawnwn yn ei gwneyd yn anhawddach i ni fucheddu yn bur ac yn dda ar ol hyn—yn yspotyn du ar ein cymeriad, yr hwn nas gallwn yn rhwydd ei ddileu, ac

yn sicr o fod yn golled anhraethol fawr i ni. Felly, ni welwn fod cyfiawnder ac anghyfnewidioldeb, yn nghyda chariad a doethineb, yn nodweddu gweithrediadau Duw tuag atom, yn natur yn ogystal ag yn mhob modd arall y mae yn dylanwadu ar ein bywydau.

Dywedir weithiau, ac, yn wir, yn fynych iawn, hyd yn nod yn ein plith ni fel Undodiaid, fod maddeuant, neu faddeugarwch, yn un o briodoleddau Duw. Ond gan fod pob gweithred, drwg neu dda, fel yr wyf wedi treio dangos, yn cael ei dilyn gan ei chanlyniadau anhebgorol angenrheidiol, y rhai ni ellir gwneyd i ffwrdd â hwynt, a chan fy mod yn credu nad yw Duw byth yn digio wrth ddyn, hyd yn nod yn ei gyflwr iselaf, am nad yw digofaint yn perthyn iddo, yr wyf yn methu gweled sut y gall maddeuant fod yn un o'i briodoleddau, ac wedi dyfod i'r penderfyniad fy hun nad ydyw. Y mae yn beth hollol ddiangenrhaid, gallwn feddwl, ac yn anmhosibl hyd yn nod i Dduw (yr wyf yn dyweyd hyn gyda phob gwyleidd-dra), os na fydd Iddo dori Ei ddeddfau Ei Hun. Ond, meddai rhywun, onid yw Duw yn gariad anfeidrol, ac onid yw cariad bob amser yn maddeu i'r rhai sydd yn troseddu yn ei erbyn? Eithaf gwir, mai "Duw, cariad yw;" ac fod cariad mewn *dyn* yn maddeu i'w droseddwyr a'i elynion am y rheswm ei fod yn feidrol, ac yn agored i gael ei droseddu a'i ddigio; ond y mae cariad yn *Nuw* yn rhywbeth anfeidrol fwy, yn uwch, yn burach, yn helaethach, yn sancteiddiach, ac, mewn gair, mor fawr fel nad ydyw yn alluog i gael Ei dramgwyddo na'i ddigio gan rywbeth a ddygwydd Ei blentyn wneyd yn erbyn Ei ddeddfau, neu yn groes i'w ewyllys. Nid wyf yn dyweyd hyn am fy mod am gael ereill i'r un meddwl a mi (bydded pob un sicr yn ei feddwl ei hun), ond am fy mod yn credu ei fod yn iawn i, ac yn ddyledswydd ar, bob un i draethu beth y mae yn wirioneddol yn ei gredu, ac nid yr hyn sydd yn boblogaidd neu wedi arfer cael ei gredu gan ryw ddosbarth neillduol o ddynion. Nid yw y dybiaeth hon heb gael ei chefnogi a'i hategu hyd yn nod yn ngeiriau Iesu Grist Ei Hun, megys ag yn y frawddeg—"Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt; ni ellir casglu grawnwin oddiar ddrain, na ffigys oddiar ysgall;" a gwelir yr un tueddiad meddwl yn y gred boblogaidd, yn ein plith ni, beth bynag, fod pob un yn cael ei farnu yn ol ei weithredoedd. Y gwir yw, fel y credwyf, fod y ddwy gred yma am Dduw yn bodoli yn gyfochrog yn y meddwl poblogaidd *(the popular mind)*, heb un ymgais wedi cael ei wneyd ganddo erioed i'w cysoni â'u gilydd; a dyma'r rheswm, mi dybiaf, eu bod yn gallu bodoli ill dwy yn yr un meddwl. Ond unwaith eto, dywedaf: Bydded pob un sicr yn ei feddwl ei hun.

Yn ddiweddaf, ni a gredwn yn *ngallu* anfeidrol a diderfyn Duw, yr hwn sydd yn amlwg i bob un ag sydd ganddo lygaid i weled a chlustiau i wrandaw. Y mae llawer o bobl yn barod iawn i briodoleddu pob peth a gymer le yn llywodraethiad y greadigaeth i ddeddfau sefydlog, a alwant yn "Ddeddfau Natur,"

ac i anghofio y Gallu sydd tucefn i'r rhai hyn i gyd, ac heb yr Hwn ni fyddent erioed wedi dyfod i fodolaeth. Mi a gredaf eu bod yn iawn pan yn priodoleddu pob dygwyddiad i ddeddfau neillduol, ond eu bod yn camsynied pan yn anwybyddu y Gallu anfeidrol a thragywyddol—y Bôd a alwn ni yn Dduw—sydd tucefn i'r holl ddeddfau yma, a thrwy ba Un yn unig y maent wedi d'od i fodolaeth, ac yn gallu cario eu gwaith yn mlaen yn sicr a rheolaidd. Mae ein hamgyffrediad ni o allu Duw wedi cael ei eangu, i raddau helaeth iawn, trwy ddarganfyddiadau diweddar Gwyddor. Ni feddyliwn ni yn awr am Dduw fel y Bôd Hwnw y sonir am dano yn yr Hen Destament, yr Hwn a wnaeth y byd a phobpeth sydd ynddo mewn chwe' diwrnod, ac yna a orphwysodd ar y seithfed dydd, fel pe wedi Ei luddias gan y gwaith, fel y Bôd a wnaeth y belen ddaearol hon yn unig, ac sydd yn cyfyngu ei sylw iddi; a'r Hwn, er Ei fod ar y cyntaf yn gweled Ei holl waith yn dda, a siomwyd yn fuan yn Ei greadigaethau Ei Hun, ac a fu raid iddo eu dinystrio oll bron er mwyn cael rhyw fath o ailgynyg, fel y dywedwn. Yn hytrach, credwn ni am dano fel Ffynonell offerynol bywyd cyffredinol yn mhob man, nid ar y ddaear hon yn unig, ond yn y miliynau o blanedau a heuliau sydd yn troi yn yr eangderau; ac yn Ffynonell y rhai hyn eu hunain hefyd, y rhai y mae yn eu rheoli trwy ddeddfau neillduol a sefydlog.

Yn ychwanegol at y priodoleddau hyn, gallwn ddyweyd fod Duw yn Hollddoeth, yn Hollberffaith, ac yn Holldda, er fod y rhai hyn yn cael eu hamleni *(involved)* yn y rhai wyf wedi enwi eisoes.

Yn y byd meddyliol, y mae yna ddosbarth o bobl, a elwir fynychaf yn Agnosticiaid, y rhai a betrusant alw Duw yn Berson, ac a dueddant i edrych arno fel rhyw allu anmhersonol. Mae hwn yn gwestiwn rhy ddwfn, ac yn gofyn gormod o amser i fyned i mewn iddo yn bresenol; ond gallaf ddyweyd hyn, os ydym yn petruso edrych ar Dduw fel Person, yr ydym, neu ni a ddylem wneyd hyny, nid am Ei fod yn rhywbeth llai na Pherson, ond am Ei fod yn rhywbeth anfeidrol fwy na hyny, yn yr ystyr a roddwn ni i'r gair.

ALIQUIS.

COLLEDION.

COLLI cyfaill, colled enbyd,
Colled gwaeth na cholli golud;
Colli iechyd, dyodde'n drostan,
Colli'r synwyr, colli'r cyfan.

R. J. (AMNON), 1797-1844.

Y GAUAF.

I'R EIRA.

NI cherddaf, nid äf o dŷ,
Yn mhoen ydd wyf am hyny.

* * *

Fy esgus yw'r fau wisg sydd
Mal unwisg y melinydd.

* * *

'E ddaru Dduw'r ddaear ddu
O gylchoedd ei gwyngalchu ;
Ni bu îs coed heb wisg wen,
Ni bu lwyn heb lywionen.
Blawd mân yw'r pân ar bob pill,
Blawd wybr fel blodau Ebrill ;
Llen oergur fel llwyn irgoed,
Llwyth o'r calch yn llethu'r coed.

* * *

Oes un a ŵyr fis Ionawr
Pa ryw lu sy'n poeri i lawr ?
Angylion gwynion, nid gwaeth
Sy o'r nef yn saernïaeth.
Gwelwch dynu o'r gwaelawd
Lifft o blanc o lofft y blawd ;
Arianwisg o'r iâ enyd,
Arian byw oera'n y byd.

DAFYDD AB GWILYM (1300—1360.)

EIRA 1778.

AR ffrwst a didrwst drosti—i'r ddaear
Fyddaraidd mae'n odi ;
Melin nef sy'n malu i ni
Blawd o liw blodau lili.

D. D. (1745—1827.)

YR IONAWR.

EIRA a gwlaw—awyr glir—a niwl oer
Bob yn ail welir;
Ni chawn, er maint achwynir,
Fawr o haul neu fore hir.

CALEDFRYN (1801—1869.)

YR IA.

PONTYDD o iâ yn un pentwr—a gaf
Yn gyfan dros Glettwr;
A hwylus rhodia'r helwr
Y grisial da'n groes ael dw'r.

AMNON (1797—1844.)

HAELIONI.

Y GAUAF oerllyd, â'i dymhestlog hin,
Sydd dymhor addas i Haelioni lwys
I agor ffynon ei rhinweddau mad.
Mor hyfryd canfod ei cherddediad mwyn
I'r bwthyn llwydwedd, lle mae'r teulu gwael
Yn haner trengu yn eu caban tlawd,
Gan newyn creulon a chan oerfel blin:
Mi welaf draw Haelioni wrth y ddôr
Yn curo'n ddifalch; ac mi glywaf lais
Ar hyn o bryd, fel gan delynau'r nef,
Yn seinio'n beraidd hyfryd yn y nen!

Y PARCH. DANIEL EVANS (D. DDU. 1792—1846.)

BLWYDDYN NEWYDD.

BLWYDDYN Newydd sydd yn nesâu,—pwy ŵyr
Pa un wêl ei dechrau;
Ede brin yw'n bywyd brau,
A diddym yw ein dyddiau.

1826. CALEDFRYN.

IOLO MORGANWG FEL EMYNWR.

TYBIR fod Iolo wedi ysgrifenu rhwng dwy a thair mil o emynau; o'r rhai hyn, cyhoeddwyd 204 yn ei gyfrol gyntaf (1812), a 211 yn yr ail gyfrol (1834). Heblaw y rhai hyn, cyhoeddwyd 22 fel atodiad i'w gyfieithiad o *Holiadur* y Parch. J. P. Estlin (1814); a cheir dau, na chyhoeddwyd o'r blaen, yn Yr YMOFYNYDD am Awst 1898. Cafwyd y ddau hyn gan Mr. D. Lleufer Thomas yn mysg ysgrifau y Parch. T. Evans (Glyncothi), Aberdar, a thrwy ei garedigrwydd ef y cafodd y cyhoedd olwg arnynt. Yn ei Ragymadrodd i'w Gasgliad (1857), fe ddywed y Parch. John Jones, Aberdar, iddo ef, tua'r flwyddyn 1834, ddarllen pedair cyfrol ar ddeg yn llawysgrifen Iolo, nad oeddynt yn y ddwy gyfrol gyhoeddedig.

Yn ei Ragymadrodd i'w Gyfrol I., rhydd Iolo ar ddeall i ni ei fod wedi ameanu at gael emynau y gallai pawb o bob enwad eu canu "mewn mawl i'r Un Duw a Thad oll." Gellir gweled ar unwaith nad yw emynau Iolo yn canu yr un o'r credoau; ond er fod rhai, ag sydd yn alluog i farnu, yn cyfaddef fod rhagoriaeth uchel yn perthyn i lawer ohonynt, y mae'n rhyfedd meddwl nad oes yr un ohonynt erioed wedi dyfod i arferiad cyffredin, ac y mae'r gofyniad yn codi yn naturiol, Paham hyny? Edrychir yn ofer am un ohonynt yn llyfrau emynau yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Methodistiaid. Ceir ychydig yn llyfrau y Wesleyaid; ond dylid cofio nad yw enwau yr awdwyr yn cael eu rhoddi yno, yr hyn a gyfrif, efallai, am ysbryd mwy anturiaethus yr enwad parchus hwnw. Yn *Emynau y Cysegr*, o gasgliad Thomas Gee, er fod ynddo 2,615, a'i fod yn cael ei gyfrif yn llyfr cenedlaethol, nid oes un o eiddo Iolo. Yn wir, y mae Mr Gee yn fwriadol wedi anwybyddu pob emyn a dybiai fod wedi tarddu o ffynonell Undodaidd; er yr ymddengys ei fod, yn ddiarwybod, wedi trosglwyddo rhyw haner dwsin ohonynt, gan mwyaf, ar achlysuron neillduol, allan o lyfr y Wesleyaid, lle'r oeddynt heb enwau wrthynt, a'u priodoli i'r awdwr bydadnabyddus—ANAD.! Yn ei ragymadrodd, y mae Mr. Gee yn cydnabod ei rwymedigaethau i *Emynau Mawl a Gweddi* R.J.J.; ac er ei fod wedi anrhegu Golygydd y llyfr hwnw â chopi gwerthfawr o *Emynau y Cysegr*, nid yw ei rwymedigaethau yn cyrhaedd hyd at gymaint ag un emyn o'r llyfr hwnw. Gall ei fod wedi cael y Mynegai yn ddefnyddiol, fodd bynag.

Y mae ein darlithwyr Cymreig ar Emynyddiaeth, megys Glanffrwd, Penar, a'r Deon Howell o Dŷ Ddewi, yn gollwng Iolo ymaith gydag ychydig neu ddim sylw; a dywed y Parch. Alonzo Griffiths yn ei lyfr ar Emynyddiaeth fod hyd yn nod yr Undodiaid yn awr wedi ei osod ar y silff. Nid yw hwn ond un engraifft o'r mil ac un o'r gwallau a welir yn llyfr Alonzo, druan.

O'r tu arall, yr oedd y Parch. Daniel Evans, M.A., y bardd du o Geredigion, yn cyfrif Iolo y goreu o emynwyr Cymru, a'r nesaf o ran ysbryd a sylwedd at berganiedydd Israel. Rhoddai Huw Tegai air uchel iawn i emynau Iolo; a dywed Robert Ellis (Cynddelw), beirniad mwy craffus, efallai, nag un o'r ddau, tra ar yr un pryd yn codi tipyn o gŵr y fantell, fel hyn: "Cyfansoddodd Iolo dair mil o emynau, a thua 300 o erddiganau i'w canu arnynt. Dyna dystiolaeth ei fab, Taliesin ab Iolo. Gan hyny, y mae 2,500 o'i emynau heb eu cyhoeddi eto, canys tua 500 ohonynt sy'n argraffedig yn y ddau lyfr. Mae ei emynau yn rhagori mewn nifer ar eiddo Williams, Pantycelyn, ac yn rhagori yn ddirfawr mewn celfyddgarwch hefyd.....Wedi'r cwbl, ni ddaw emynau Iolo byth yn boblogaidd yn Nghymru. Er nad oes ynddynt syniadau tramgwyddus i neb, am a wn i, eto maent yn amddifad o'r elfen fywydol hono sy'n gwneyd emyn yn flasus ac effeithiol. Nid yw cwymp dyn yn Adda, a'i achubiaeth drwy angeu Crist, yn un rhan o'i syniadau; eto cydnebydd Iesu Grist fel Athraw Dwyfol wedi dyfod i ddysgu'r ffordd i'r bywyd, a gwynfydedigrwydd y genedl a wrendy arno ac a'i dilyno."

Y mae'n naturiol gofyn yma, Pa gymaint o'r gyffes ffydd a'r gredo geir yn y Psallwyr? pa gymaint yn emynau mwyaf poblogaidd Glan Geirionydd? pa gymaint yn emyn bydadnabyddus y Cardinal Newman, "Lead, Kindly Light"? &c., pa gymaint yn yr emynau Undodaidd a welir yn dryfrith ar hyd llyfrau Saesoneg diweddar bron yr oll o'r gwahanol enwadau?

Megys adsain o Cynddelw yw yr hyn a geir gan Alonzo yn ei *Hanes Emynwyr Cymru* fel hyn: "Yn mysg yr Undodiaid y defnyddiwyd ei emynau yn benaf, os nid yn hollol, fel y gallesid dysgwyl; ond erbyn hyn y maent hwythau *wedi eu troi o'r neilldu* (?), oddigerth ychydig nifer. Megys holl weithiau Iolo, y maent yn hynod gelfydd o ran mydr, acen, ac odl, ond er hyny yn amddifad o'r peth hwnw sydd yn gafael yn serchiadau cynulleidfa i'w gosod mewn hwyl i gadw gwyl i'r Arglwydd. Heblaw nad yw Calfaria yn cael lle dyladwy ynddynt," &c.

Ceir dau o emynau Iolo yn *Hymnau a Thonau* y Parch. Daniel Evans, D.D., rheithor Corris, sef—

"Ser y bore'n dyrfa lan,"

II., 191, ac—

"Aeth diniweidrwydd at ei Dduw,"

II., 141. Ceir y ddau hyn a dau ereill yn *Emyniadur* newydd y diweddar Esgob Bangor, sef—

"Cân ser y wawr yn bêr y sydd,"

II., 65.

"At rai'n bugeilio'r praidd liw nos,"

II., 199. Y Canon D. Silvan Evans ddetholodd yr oll o Iolo i'r Esgob. Fe wellir mai emynau ar achlysuron neillduol ydynt, a'u bod yn mhell o fod y goreu o eiddo yr awdwr.

Y mae emynau Iolo yn wastad yn ffurfio rhan bwysig o holl lyfrau emynau yr Undodiaid, fel nad oes eisieu rhoi engreifftiau i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD i brofi eu gwerth.

Yn yr adolygiad ar *Emyniadur* Esgob Bangor, a ymddangosodd yn y *Western Mail* (Chwefror 7fed, 1898), rhoddir iddo'r ganmoliaeth uchel a ganlyn: "With one exception, that of the Rev. Rees Jenkin Jones, of Aberdare, the Hymn Book published by the Bishop of Bangor is undoubtedly the best work of its kind that has ever appeared in Wales." Gwnawn y dyfyniad hwn yn benaf, er mwyn pwysfawru'r ffaith fod emynau Iolo yn ffurfio mwy na haner y llyfr sydd yn rhagori ar lyfr yr esgob.

Yn nghasgliad John Jones, Aberdar, fe welir 208 o eiddo Iolo allan o gyfanswm o 305; yn *Emynau Mawl a Gweddi* y mae 189 allan o 379; ac yn *Perlau Moliant* (1896), 137 allan o ryw 500.

Goddefer i mi cyn gosod yr ysgrifell o'm llaw i wneuthur y dyfyniad a ganlyn allan o lythyr a anfonwyd gan Iolo at Mr. Samuel Morgan, Castellnedd, dyddiedig Ebrill 20fed, 1825: "Fy mab, yr hwn a ymwelodd â mi ychydig ddyddiau yn ol, a ddangosodd i mi lythyr oddiwrth Mr. James, Gellionen, yn dymuno arnaf anfon i'r wasg fy ail gyfrol, hir-barotoedig, o *Salmau a Hymnau*, neu ail-argraffu y gyfrol gyntaf, yr hon sydd wedi bod maes o argraff er's llawer o flynyddau. Yr wyf trwy raddau araf wedi gwneyd detholiad allan o'm cyfansoddiadau lluosog ar gyfer y wasg; ac yr wyf yn truthio fy hun y bydd yr ail gyfrol yn llawn amgenach na'r gyntaf. Yr wyf wedi ysgrifenu, wedi cyhoeddiad y gyfrol gyntaf, fwy na dwy fil o salmau. Nid ydych i ystyried i mi erioed fwriadu cyhoeddi haner y rhif hyny, na'r cwarter chwaith," &c.—Dyfynedig o Fywgraffiad Mr. Thomas Stephens o Iolo, gwel YMOFYNYDD, 1852, tudal. 274.

Gweler eto *Julian's Hymnology*, Welsh Hymnody, tudal. 1253 a tudal. 1281. Bu awdwr yr erthygl ar Emynyddiaeth Gymreig yn llyfr Julian, sef y Parch. W. Glanffrwd Thomas, farw tra yr oedd y gwaith pwysig hwnw yn pasio drwy y wasg, a hyny yn benaf sydd i gyfrif am y lluaws gwallau sydd yn ei nodweddu.

Hydref, 1899. R. J. J

RHAGDDYWEDIR yn bendant ac yn eglur am effeithiau dinystriol myglys yn Dat. ix. 18: "Gan y tri hyn y llâs traian y dynion gan y tân, a chan y mwg, a chan y brwmstan, oedd yn dyfod allan o'u safnau hwynt." Cyfeiria y brwmstan, wrth gwrs, at y *matches*. Nid yw yr esboniad hwn yn fwy *forced* nag sy'n gyffredin wrth ymwneyd â dirgelion y Datguddiad.

EANGDER Y GREADIGAETH.

MAE'R greadigaeth drwyddi draw
Yn dangos llaw'r Anfeidrol;
Mae'n batrwn perffaith, dilys yw,
O allu'r Duw trag'wyddol.

Mae ffurfafenau mwy na mwy
'N bodoli trwy'r eangder;
A heuliau dirif yna'n troi
O hyd wrth roi eu lleufer.

Cyflymdra mellt pe meddwn i,
Ehedwn i'r eithafoedd,
I weled gwaith dwy-law fy Ner—
"A yw Ei ser yn fydoedd?"

Ymsaethwn drwy'r eangder mawr
Mor chwim a gwawr goleuni,
I weled teithi'r bydoedd hyn,
A'u deiliaid yn bodoli.

Mae'r cread mawr, o'i chwilio oll,
Yn hollol annirnadwy;
I lygad dyn mae'n mhob rhyw wedd
Yn rhyfedd ac ofnadwy.

Y penillion diweddaf a gyfansoddwyd yn y gwanwyn o'r flwyddyn 1899 gan y diweddar D JENKINS, Blaenwaun.

YNYSGAU, MERTHYR TYDFIL.

YN yr YMOFYNYDD am y mis diweddaf ymddangosodd erthygl o dan y penawd uchod, yr hon a ddarllenais gyda dyddordeb, ond gwelaf ychydig o bethau ynddi nad ydynt *hollol* gywir. Dywed "R. J. J.":—

(1). Mai "cangen oedd" Ynysgau "o hen eglwys Cwmyglo, a'r ail a aeth allan oddiyno." Mae yn wir fod cangen wedi myned allan yn 1747 i Gefncoedycymer, ond nid ydyw wir mai *cangen* oedd eglwys Ynysgau, canys symudodd eglwys Cwmyglo i lawr i'r fan lle y saif y capel presenol yn Ynysgau, yn y flwyddyn 1749, pryd y daeth prydles Cwmyglo i ben. Felly, nid *cangen* ydyw eglwys Ynysgau, ond parhad o eglwys henafol Cwmyglo.

(2) Urddwyd Mr. Daniel Davis yn weinidog Ynysgau ar y 6ed o Fai, 1785 (nid 1786), a bu farw ar y 15fed o fis Awst, 1853, yn 93 mlwydd oed, ac nid yn 1851, yn 91 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Ynysgau.

(3) Dywed "R. J. J." ar waelod tudal. 276, "Sylwer eto yn ofalus ar gynwys y geiriau canlynol allan o *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, ii., 250: 'Yn dra buan ar ol ei urddo, dechreuodd Mr. Evans bregethu athrawiaeth fwy efengylaidd,'" ac yna ä yn mlaen i feirniadu "pregethau blaenorol," ac "amcan" Mr. Evans "yn newid ei ddull," &c. Ond wrth wneyd hyn nid yw "R. J. J." yn gwneyd yn deg â Mr. Evans, nag â haneswyr Eglwysi Annibynol Cymru, oblegid nid yw y dyfyniad a wna yn gywir! Dyma sydd yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, ii. 250: "Yn dra buan ar ol ei urddo, dechreuodd Mr. Evans bregethu athrawiaeth fwy efengylaidd *nag a bregethasid yn mhwlpud Ynysgau er dyddiau Mr. James Davies.*" Gwelir wrth y geiriau sydd wedi cael eu hitaleiddio genyf, nas gellir, trwy unrhyw fodd, roddi iddynt yr ystyr a gyflëir gan ddyfyniad anghywir "R. J. J.," ac felly tynir i lawr sail ei feirniadaeth ar "bregethau blaenorol" ac "amcan" Mr. Evans "yn newid ei ddull," oherwydd ni ddywed yr Haneswyr y naill na'r llall!

Fel un sydd yn mwynhau y fraint o aelodaeth yn eglwys Ynysgau, teimlwn ei fod o werth i geisio cywiro y camsyniadau uchod, heb un amcan arall ond cael y ffeithiau yn gywir ar gof a chadw. Dyddorol, efallai, i rywrai, fydd dyweyd fod yr eglwys hon wedi dathlu ei sefydliad am 150 o flynyddau *yn y lle presenol*, trwy gynal cyfarfod arbenig prydnawn Llun, Tachwedd 27ain diweddaf, pryd y darllenwyd papyr ar hanes yr eglwys, gan ysgrifenydd y llinellau hyn, yr hwn a gyhoeddir ar gais y cyfarfod mewn ychydig amser.

Merthyr Tydfil, Rhagfyr, 1899. D. D. WILLIAMS.

YR EGLWYSI A'R DOSBARTHIADAU GWEITHIOL.

DYMA ydoedd pwnc Mr. Delta Evans yn Essex Hall yn ddiweddar. Ar ol cyffwrdd âg agwedd yr eglwysi unionged tuag at wyddoniaeth, darganfyddiadau, a beirniadaeth ddiweddar, a dangos fel y mae penboethni ac erledigaeth yn d'od yn raddol i roi lle i oddefgarwch a rhyddfrydedd mewn materion o athrawiaeth a chred, awgrymwyd mai un rhwystr mawr ar ffordd llwyddiant crefydd yn y dyddiau hyn ydyw y gwahaniaeth annymunol a wneir yn gyffredin yn ein heglwysi rhwng tlawd a chyfoethog, llafurwr a "gŵr-boneddig," &c. Mae hyn yn anhawsder anferth ag sydd yn cyfarfod diwygwyr ar bob llaw. Dywedodd y siaradwr: "Y mae lle i ofni fod yn y dyddiau

hyn ormod o lawer o le yn cael ei roddi genym i'r elfen hono a elwir mewn cylchoedd ffasiynol yn *respectability*—un o ffaeleddau mwyaf dybryd yr oes, a ffrwyth cyfundrefu ddiffygiol addysg y gorphenol. Coleddir hi i raddau eithafol yn mysg holl sectau'r byd Cristionogol, ac y mae yn dra nodweddiadol o uchafiaeth "swyddogol" capel ac eglwys. Y mae lle i ofni hefyd fod gormod o bwys yn cael ei roddi gan yr enwadau yn gyffredinol i'r hyn a eilw'r Sais yn *class distinction*, a'r hyn a gondemnir mor chwerw yn Epistol ymarferol Iago. Cynwysa'r elfen hon, ar y naill law, mewn edrych i fyny yn wenieithus ar y dosbarth hwnw a gamenwir "y bobl fawr"—pobl yr aur a'r arian, pobl y gwisgoedd meinion a'r modrwyau adamant, a llawer ohonynt yn ddim ond gorthrymwyr creulawn a *sweaters* o'r lliw hyllaf; ac ar y llaw arall, mewn edrych i lawr yn waradwyddus ar y dosbarthiadau gweithiol—mwnwyr, crefftwyr, a llafurwyr y ddaear, gwir wneuthurwyr cyfoeth, ac asgwrn cefn y genedl. Gwyddom am ddynion heddyw yn dal y swyddi anrhydeddus o weinidogion a diaconiaid mewn eglwysi a broffesant ddysgu egwyddorion crefydd y Gweithiwr o Nazareth, yn cymeryd mantais ar eu safleoedd i ormesu a dirmygu'r gweithiwr, tra yr ymlusgant yn y llwch wrth draed y goludog. Diamheu fod y "parch" annyladwy a'r gwaseidd-dra gwrthun a delir gan swyddogion ein heglwysi i'r dosbarth arianog, ar draul anwybyddu'r dosbarth gweithiol, yn atal llwyddiant ac effeithiolrwydd crefydd resymol a dyngarol yn ein gwlad; y mae yn tynu anfri ar Gristionogaeth ei hunan, ac yn milwrio yn erbyn pob cynydd cymdeithasol, moesol ac ysbrydol, yn neillduol felly pan gefnogir ef mor galonog gan "weinidogion yr Efengyl," a gwŷr urddasol yr Eglwys. Oes, y mae llawer o'r rhai'n yn cyfrif eu hunain yn rhy *respectable* i symud na bys na bawd ar ran y gweithiwr, drwy chwŷs gwyneb yr hwn y mae rhai ohonynt yn gallu derbyn cyflogau o filoedd o bunau mewn blwyddyn!

O! mor anhebyg i'r Gweithiwr, yn enw'r Hwn yr änt allan! Mor anghyson â dysgeidiaeth yr Athraw y proffesant fod yn ddysgyblion Iddo! Ac eto, nid rhyfedd mo hyn, oblegid cyhyd ag y bo'u hawch am ddyrchafiad a'u gwanc am glod yn gwneyd i fyny holl gymhellion eu bywyd; cyhyd ag y b'ont yn boddi llais dyledswydd mewn arddangosiadau pwlpudyddol a thrwst areitheg, ac yn aberthu cydwybod i glodydd rhad y newyddiaduron; cyhyd a hyny, hwy a arosant mewn anwybodaeth hollol o wir gyflwr y gweithiwr, ac yn gwbl ddifater yn nghylch ei ofynion a'i hawliau. Nid felly yr oedd gyda Iesu. O na; nid oes genym hanes ei fod Ef yn byw mewn esmwythyd a gorddigonedd, yn ddifeddwl am ereill. Nid oes son ei fod Ef yn gwario chwe' diwrnod mewn myfyrgell gyfoethog neu gyfarch-ystafell felfedaidd, ac wrth fwydfwrdd wedi ei arlwyo â phob math o ddanteithion, gan ddefnyddio'r seithfed dydd i draddodi un neu ddwy o "bregethau" gorchestol er difyrwch a boddhad cynulleidfa o "bobol fawr." Ei gynulleidfa Ef ydoedd y werin, a'i genadwri Ef oedd yn arbenig i'r blinderog a'r llwythog. Pa fodd y cafodd Efe gymaint o

ddylanwad ar y torfeydd, y bobl gyffredin, llongwyr a physgodwyr—y gweithwyr? Yr oedd Efe yn un ohonynt, yn ymsymud, byw, a bod yn eu mysg. *Gweithiwr oedd yntau.* Gwyddai beth oedd eu gobeithion, eu dyheadau, a'u hangenion; gwyddai trwy brofiad am eu holl helbulon, eu temtasiynau, eu gwendidau, eu dyoddefiadau, a'u gofidiau; felly medrai gydymdeimlo â hwy. Ac yr oedd yn gallu goleuo i'w gyd-ddyn fuasai mewn tywyllwch, nid yn gymaint oherwydd ddarfod iddo yntau orfod gweithio Ei ffordd trwy dywyllwch, ond am fod Ei lygaid yn gwel'd goleuni allan o'r tywyllwch. Wrth wraidd y cyfan y mae Ei Efengyl ogoneddus o Dadolaeth Duw a Brawdoliaeth Dyn. Ond pa le y saif Cristionogaeth y ganrif bresenol gyda golwg ar yr athrawiaeth hon? Hyderwn y daw eglwysi'r ugeinfed ganrif yn ddigon hyddysg yn nysgeidiaeth y Testament Newydd i fedru sylweddoli mai nid rhywbeth i wneyd dynion yn *respectable*, yn ystyr sathredig y gair, ydyw crefydd Iesu o Nazareth.

> "Tosturia wrth y crwydryn a gwrddi ar dy rawd,
> Er dŵch mawr ei gamwedd, mae eto i ti'n frawd.
>
> Tosturia wrth y crwydriaid, a cheisia'u denu'n ol,
> A geiriau tyner cariad, bob un o'i lwybrau ffol.
>
> A chofia nad wyt tithau ond crwydryn gwan a gwael;
> Bydd dyner fel dysgwyli gan Dduw dynerwch gael."

Y mae pobl weithiau, fel yr awgryma ysgrifenyddion cysegredig, wedi "lletya angylion yn ddiarwybod," ac fe welwyd cyn hyn aml i *genius* mewn carpiau yn cardota o ddrws i ddrws. . . Pa beth bynag yw ein cyrhaeddiadau ni, pa beth bynag yw ein safle ni mewn bywyd, prin y gallwn ni fod yn rhy *respectable* i wneyd cymwynas i'r tlawd, i estyn help llaw i'r gwan, i gydymdeimlo â'r trallodus, i addysgu'r anwybodus, i gynyg gair o gynghor i'r afradlon, ac i gymhell y drygionus i adael ei ffordd. Ond y mae hunan-aberth yn ofynol i hyn. Dywed Ernest Renan: "Can gynted ag y bo aberth wedi d'od yn ddyledswydd ac yn angenrhaid i'r dyn, nis gallaf weled terfyn i'r gorwel sy'n ymagor o'i flaen ef." Ymddengys i mi mai yn ei hunan-aberth er mwyn ereill, a'i ymgysegriad i'w gwasanaeth, y gorwedd dirgelwch y dylanwad rhyfedd ac arosol a adawodd Iesu ar y byd, yn enwedig ar y dosbarthiadau gweithiol; yn wir, dyma'r agoriad i ddirgelwch dylanwad holl eneidiau mawrion pob oes a gwlad ar y byd o'u hamgylch.

* * * *

Os rhydd i mi, fel gweithiwr cyffredin, i ddatgan fy marn ar bwnc mor bwysig, anturiaf ddyweyd mai un ffordd effeithiol i'n gweinidogion ac athrawon ein cymdeithasau crefyddol i gyrhaedd yr amcan dymunol hwn, sef i godi'r dosbarthiadau gweithiol i safle uwch, yn foesol, meddyliol, a chymdeithasol, ydyw trwy gydymdeimlad a chyfeillgarwch. UN OEDD YNO.

JOHN BIDLE (1615-1662).

Sefydlydd yr Eglwys Undodaidd Gyntaf yn Mhrydain Fawr).

"A spot of azure in a cloudy sky;
A sunny island in a stormy sea."

DYN dewr a da oedd John Bidle, addfwyn a gostyngedig, yn gosod gwirionedd o flaen credo, a ffyddlondeb i gydwybod o flaen pob dim. Adwaenir ef fel tad Undodiaeth yn y wlad hon; nid am mai efe oedd y cyntaf o ran amser—yr oedd ereill o'i flaen—ond am fod ei lafur ef yn helaethach na hwynt oll. Yr oedd ei sêl ef a'i frwdfrydedd gymaint, ei ymdrech dros ei egwyddorion mor ddiflino, a'i aberth a'i ddyoddefiadau yn ddangoseg o hunanymwadiad mor bur, fel y darfu i'w bersonoliaeth ardderchog daflu ei ragflaenwyr i'r cysgod. Nid oeddent hwy ond megys canwyllau brwyn yn ymdrechu'n ofer i ymwthio i sylw drwy gaddug tywyllwch Aifftaidd cyfeiliornadau, tra y darfu iddo ef brofi ei hunan yn fath o haul a orfododd sylw rhai o gewri ei oes.

Ganwyd John Bidle yn Wotton-under-Edge, yn sir Gaerloew, yn 1615. Collodd ei dad yn ifanc; ond fel mab llawer i weddw arall fe'i dysgwyd yn foreu i droi ei galon at Dad yr amddifaid, ac i ddeall a sylweddoli difrifoldeb bywyd. Aeth i'r ysgol, a gwnaeth gynydd cyflym gyda phob cangen o wybodaeth. Yr oedd ganddo gof da, ac aeth heibio ei gydysgolheigion un ar ol y llall, nes cyrhaedd y top yn fuan iawn, ac eto cadwodd barch ac edmygedd pawb. Trwy ei ddifrifoldeb gyda'i waith, tynodd sylw Arglwydd Berkeley, yr hwn a roddodd bob help iddo, mewn ffordd o ysgoloriaethau, ac a'i galluogodd i fyned i Rydychain. Tlawd o amgylchiadau oedd ei fam, ond yr oedd ganddi fab a gofiai yn dyner am dani. Erbyn ei fod yn ddyn, yr oedd y Testament Newydd yn y Saesoneg a'r Groeg bron i gyd ganddo ar ei gof. Wedi cymeryd ei M.A. yn Rhydychain, dychwelodd i Gaerloew gyda chymeradwyaethau uchel, a gwnaethpwyd ef yn athraw Ysgol y Crypt. Pan yn dynesu i'r dref, aeth yr ustusiaid ac ereill i gyfarfod âg ef, a derbyniwyd ef gyda llawenydd ac anrhydedd mawr; ac ni chawsant eu twyllo ynddo. Teimlai rhieni yn falch eu bod yn gallu cyflwyno eu plant i ofal un oedd yn meddu cymhwysderau mor ardderchog ddysglaer. Fel offeiriad ac fel ysgolfeistr, elai pobpeth yn y blaen yn llwyddianus iawn gydag ef.

Bob yn ychydig, tywyllodd ffurfafen ei fywyd iddo. Aeth y cwmwl maint llaw ar y dechreu yn fawr ac yn fygythiol. Yr oedd ganddo barch i'w Feibl, a pharch i wirionedd, a pharch i gydwybod, fel y mynai fod yn ffyddlon i'r goleuni a dybiai fod ganddo. "Os ydwyt ti yn dyheu am wybodaeth

am Dduw ac am Ei Fab Ef, Iesu Grist, yr hyn yw y bywyd tragywyddol, ymrodda o ddifrif i efrydiaeth o'r Cyfamod Newydd, heb amheu dim na ddaw y gwir oleuni o'r diwedd i lewyrchu ar lygaid dy feddwl." Gwnaeth Bidle hyny ei hunan, gyda'r canlyniad i'r athrawiaethau poblogaidd fyned yn anghredadwy yn ei olwg. Cafodd ei hun yn Undodwr yn ddiarwybod iddo, a chyn iddo erioed weled un llyfr Undodaidd.

Dechreuodd ar unwaith i ledaenu ei oleuni newydd, yr hyn a fu'n achos iddo gael ei wysio o flaen ustusiaid y ddinas. Yno, ar y cyntaf, llefarai yn gynil iawn, gan nad oedd arno ddim awydd myned i garchar. Gollyngwyd ef yn rhydd gyda rhybudd; ond dywedwyd wrtho nad oedd ei atebion ddim yn foddhaol. Wedi hyny, dyfnhaodd ei afael ar wirioneddau crefydd, ac ymroddodd yn fwy selog nag erioed i'w lledaenu. Gwysiwyd ef drachefn o flaen yr awdurdodau, a bwriwyd ef i garchar. Yr oedd ar y pryd yn dyoddef yn drwm oddiwrth dwymyn. Yn yr oes hono, yr oedd yn haws dirwyo, a charcharu, a lladd dyn nag oedd i ddystewi ei amheuon ac ateb ei resymau. Dyna'r ffordd y carai rhai heddyw gadw undeb y ffydd. Rhyddhawyd ef o'i garchariad cyntaf trwy ddylanwad boneddwr o Gaerloew, yr hwn a aeth yn fechnïydd iddo. Yn 1644, bu'r enwog Archesgob Usher yn ymddyddan âg ef, ac yn ceisio, fel y dywedai, ei achub oddiwrth "gyfeiliornad damniol." Os oedd yr Eglwys wedi bod yn cyfeiliorni cyhyd, meddai, yr oedd yn euog o eilunaddoliaeth. Nid oedd y fath ymresymu yn tycio dim gyda Bidle.

Yn 1645, gwysiwyd ef o flaen Ty y Cyffredin yn Llundain. Yno bu oedi, ac oedi, a blino, ac aflonyddu arno—yr hyn oedd yn gostus iawn oddicartref. Peth drudfawr y pryd hwnw oedd ateb cyhuddiad o heresi—cael ei lusgo o gartref, heb braidd gyfaill yn y byd, ac heb ond ychydig o'r moddion gofynol i gyfarfod âg oediadau'r gyfraith. Y cyhuddiad oedd ei fod yn gwadu y Drindod—cyhuddiad newydd, ond cyhuddiad difrifol—ac ni wyddai y Pwyllgor beth i wneyd âg ef. Mynai efe iddynt fyned at y Beibl, yn lle at y credoau—os gwnaent hyny, y profai efe fod ei ddaliadau yn rhesymol ac yn Gristionogol. Nid oedd gan neb air yn erbyn ei garitor. Yn wyneb yr oedi parhaus, ysgrifenodd at aelod o'r Pwyllgor—Syr Henry Vane—yr hwn a dybiai ei fod mewn cydymdeimlad. Cyhoeddwyd y llythyr, a bwriwyd Bidle i garchar am bum' mlynedd. Yn 1647, penderfynwyd gan Gymanfa Duwinyddion Westminster i'w lyfrau gael eu llosgi gan y crogwr cyffredin, a'r awdwr i gael ei ddwyn dan brawf o flaen y Pwyllgor. Canlyniad hyn oll oedd fod mwy o ddarllen ar lyfrau Bidle nag erioed. Ceisiodd rhai ateb, ond i ychydig bwrpas.

Yn 1648, pasiwyd deddf newydd i gyfarfod â'r anhawsder, yn gosod cosb marwolaeth am heresi a chabledd, a hyn er mwyn propio i fyny y dduwinyddiaeth Drindodaidd. Ateb Bidle i'r ddeddf oedd llyfr newydd, Cyffes Ffydd ar bwnc y Drindod. Bu'n ddigon gwrol i osod ei enw ar y ffrynt, yn ei lawn hyd. Gwnaeth

hyn i'r duwinyddion ffyrnigo'n ynfyd, fel yr oedd yn amlwg y byddent yn falch o'r cyfleusdra i'w osod i farwolaeth. Tybiasant unwaith fod ei dynged wedi ei selio; ond yr oedd rhyw anhawsder i fyned mor bell ag y dymunent. Llwyddodd rhyw ustus o swydd Stafford, oedd wedi ei swyno gan lyfrau Bidle, a chan ei ymddyddanion duwiol, i'w gael yn rhydd drachefn. Ni wyddys pwy oedd yr ustus, ond dywedir i Bidle ddychwelyd gydag ef i swydd Stafford i fod yn gaplan iddo Pan fu'r ustus farw, gadawodd yn ei ewyllys rodd i Bidle; ond gorfu iddo wario'r oll yn fuan gyda'r trafferthion newydd ddaeth arno.

Gwysiwyd ef eto i Lundain, gan John Bradshaw, a gyrwyd ef i garchar am ei heresiau. Dyma ysbryd erlidiaeth bur. Ni ddysgodd neb erioed wers ymostyngiad tawel yn well na Bidle. Teimlai fod y cwpan chwerw wedi ei roddi iddo er profi ei ffydd, dyrchafu ei rinwedd, a gwneuthur ei gariad at y gwir yn fwy dwys, ac yn fwy amlwg i'r byd. Gwariai yr oll oedd ganddo i dalu cyflogau cyfreithwyr. Yr oedd cyfleusdra y pryd hwnw i garcharorion enill ychydig. Cyflogwyd ef i adolygu prawfleni Groeg argraffiad newydd o'r *Septuagint.* Cafodd lawer o bleser gyda'r gwaith hwn. Cul oedd ei fywioliaeth yn y carchar, a gwyddai yn fynych beth oedd eisieu bwyd.

Yn ystod ei drydydd carchariad, talodd Firmin ymweliad âg ef, a dygodd ddeiseb at Oliver Cromwell yn ceisio am ei ryddhad. Yr ateb a gafodd oedd: "Ti, hogyn pengrych, wyt ti yn meddwl y dangosa i ffafr i ddyn sydd yn gwadu ei Iachawdwr ac yn aflonyddu'r Llywodraeth?" Dangos ffafr wnaeth Oliver yn ddiweddarach. Pasiwyd yr *Act of Oblivion* yn 1652, a chafodd Bidle ei ryddhau ar unwaith.

Wedi cael ei ryddid, ymroddodd drachefn at yr hyn a ystyriai yn ddyledswydd. Ffurfiodd gymdeithas fechan i gwrdd bob Sul er mwyn addoliad ac er mwyn darllen y Beibl. Teimlad eglwysi Llundain oedd ei bod yn sarhad arnynt hwy na chawsai Bidle a'i bobl eu dystewi. Amlwg nad oedd ei ofid ar ben eto. Gwnaethai ddefnydd helaeth o'i ysgrifell, canys yr oedd yn ysgrifenwr medrus, yn ysgolhaig da, ac yn feistr ar gynwys ei Feibl. Dangosodd fod yr eglwysi boreu yn Undodaidd mewn athrawiaeth, ac y dylid defnyddio ein rheswm wrth ymwneyd â chrefydd, a phe gwneuthid hyny y gwelid daliadau rhai dynion yn fuan yn y llwch. Cyhoeddodd ddau gatecism, a dywedodd eu bod yn gymeradwyaeth uchel i'n hopiniynau ni—y gellid eu gosod allan yn ngeiriau yr Ysgrythyr, heb ddefnyddio termau na ŵyr yr Ysgrythyrau ddim am danynt.

Yn 1654, parodd eglwysi Llundain iddo gael ei fwrw i garchar eto, am y bedwaredd waith. Y tro hwn, gwrthodwyd iddo na phin, nac inc, na phapyr, a rhwystrwyd iddo gael gweled neb o'i gyfeillion. Ar ol chwe' mis, rhyddhawyd ef eto, ac aeth yn ol at ei bobl.

Nid oedd ganddo fwriad gadael i'r ddaeargell ei ddystewi. Teimlai fel Paul, "Gwae fi oni phregethaf yr Efengyl." Gwyddai

fod ei fywyd mewn perygl. Nid oedd Tŷ y Cyffredin yn foddlon caniatau rhyddid i addoli i Undodwr. Yr oedd y Werinlywodraeth wedi mabwysiadu y rheol hon: "Y cyfryw a broffesant ffydd yn Nuw trwy Iesu Grist, er yn gwahaniaethu oddiwrth y farn gyffredin mewn athrawiaeth, neu addoliad, neu ddysgyblaeth, ni rwystrir hwy, ond amddiffynir hwy yn mhroffes eu ffydd, ac ymarfer eu crefydd, a chaiff pob deddf i'r gwrthwyneb ei hystyried fel pe heb fod." Ond er gwaethaf y broffes deg hon, i garchar y ca'dd Bidle fyned; ac er pob rhwystrau, dal ati yr oedd, ac iddo ef y perthyn yr anrhydedd o ffurfio yr eglwys Undodaidd gyntaf yn Mhrydain Fawr.

Yr oedd galw am argraffiad ar ol argraffiad o'i weithiau, ac yr oedd ambell i ddyn gwrol yn meddwl y dylid ei ateb mewn dadl gyhoeddus. Anfonodd un Griffiin, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, hèr iddo gwrdd âg ef yn Stone Chapel. Addawodd Bidle. Daeth yno gynulliad lluosog yn nghyd. Dechreuodd Griffin drwy ofyn, A oedd yno rywun ag oedd yn gwadu fod Crist yn Dduw. Atebodd Bidle, "Yr wyf fi'n ei wadu!" Treuliwyd yr amser gan Griffin i brofi Duwdod Crist. Addawyd y cawsai Bidle gyfleusdra i ateb, a gohiriwyd y cyfarfod. Ni chadwyd yr addewid. Ceisiwyd ffordd arall i'w ddystewi. Gwysiwyd ef i'r Old Bailey, gyda'r bwriad i'w garcharu eto, ond gwnaeth Cromwell ymyraeth, ac i arbed trafferth pellach, ac i'w achub o bosibl rhag merthyrdod, danfonodd ef i Gastell St. Mary, yn y Scilly Islands, Hydref 5ed, 1658. Danfonai Cromwell iddo yno gant coron bob blwyddyn, ac yn y diwedd mynodd ei ryddhau.

Cyn ei garchariad diweddaf, yr oedd ganddo gynulleidfa luosog, yr enwog John Firmin yn eu plith. Ar y cyntaf adwaenid ei ganlynwyr fel Bideliaid, ond yn ddiweddarach, mynodd Bidle eu galw yn Undodiaid.

Nid cynt y cafodd Bidle ei ryddid yn Llundain, nag y dechreuodd eto gasglu ei gyfeillion yn nghyd, ac ni osodwyd ataliad arno tra fu Cromwell byw. Wedi hyny (1658), ar gynghor yr Arglwydd Brif Farnwr Glyn, ymneillduodd Bidle i'r wlad. Dychwelodd yn ei ol yn 1662, a chynaliai ei gyfarfodydd yn ddirgel. Wedi adferiad Siarl II., nid oedd ganddo fawr gobaith am gael llonydd. Gwyddai ei fod yn cael ei wylied, ac ofnai wneuthur dim i ddwyn perygl ar ei gyfeillion. Yn debyg i'r dysgyblion cyntefig, arferent gwrdd yn nhŷ un neu'r llall o'r brodyr. Daliwyd ef eto, a thaflwyd ef i garchar gan yr Arglwydd Faer. Dyma'r chweched tro. Gosodwyd dirwy o £20 ar bob un o'i gyfeillion, a £100 arno yntau, ac i aros yn y carchar nes y talai. Ceisiwyd ganddynt leihau y ddirwy: ond na, y ddaeargell oedd y man y mynent hwy iddo fod. Teimlai yn awr fod ei ddiwedd yn nesâu. Nid oedd ofn marw arno, ac yr oedd ei waith ar ben. Ar yr 22ain o Fedi, 1662, pasiodd ei ysbryd o gaethiwed ei garchar daearol i ryddid gogoneddus paradwys Duw. Ac felly y terfynodd yr ymdrech gyntaf i sefydlu Undodiaeth Gristionogol yn Mhrydain Fawr. Fe erlidiwyd Bidle am 20 mlynedd, a

dygwyd ei fywyd i derfyn anamserol gan amddiffynwyr y ffydd, pan y dylai fod, oni bai hwy, yn anterth ei nerth. Yr oedd Bidle yn enwog yn ei ddydd am ei gyfiawnder, a'i gariad, a'i dduwioldeb. Ni allai ei elyn penaf ddwyn un cyhuddiad yn ei erbyn ar y pen hwn. Nid yn ofer y bu John Bidle fyw. Nis gellir amddifadu y merthyr o'i anrhydedd. Y mae pob fflangell yn dafod o dân i ledaenu ei glod; pob carchar yn breswylfa mwy anrhydeddus; pob llyfr a losgir yn lamp newydd i oleuo'r byd; pob gair a ddystewir yn adseinio drwy y ddaear o begwn i begwn. Caiff cyfundebau, fel unigolion, yn wastad eu hymweled gan oriau o ystyriaeth ac iawnbwylledd, pan y mae'r gwirionedd yn dyfod i'r amlwg, a'r merthyron yn cael eu cyfiawnhau. Gweler *Unitarian Worthies*, a llyfr newydd y Parch. Walter Lloyd ar *Protestant Dissent and English Unitarianism.*

T.C.U.

PANT-TEG, GER LLAW CASTELLNEWYDD-EMLYN.

DYMUNA aelodau y capel Undodaidd uchod roddi y diolchgarwch gwresocaf i'r lluaws cyfeillion a fu mor frawdol a chynorthwyo trwy roddion arianol tuag at adgyweirio y capel. Bellach, mae y gwaith wedi ei orphen yn ddestlus, oddieithr ei baentio, a bwriedir gwneyd hyny mor fuan ag y byddo y tywydd yn caniatau, fel ag y byddo yr oll wedi ei lwyr gwblhau erbyn cael cyrddau agoriadol yn y gwanwyn, gan fawr obeithio cael presenoldeb rhai o'n pregethwyr goreu er ystormio cestyll Calfiniaeth a Thrindodiaeth, pa rai sydd mor uchel yn ein gwlad. Er cymaint y cynydd mewn gwyddorau a chelfyddydau, myn y dosbarth mwyaf lluosog ddal at yr athrawiaethau mwyaf anghyson, yn unol â'r priodoleddau a berthyn i'n Tad Nefol, o gosbedigaeth ddiddiwedd ac edifeirwch gwely angeu. Gwir ydyw yr ä miloedd o'r cymeriadau gwaethaf dros y fath bontbren bwdr o'r byd o amser i'r maith a diderfyn dragywyddoldeb. Gwir y cydnabydda y Trindodiaid weithredoedd da yr Undodiaid; eto, meddant, nid ydyw hyny ddim at gael ffydd i gredu mewn Trindod o Bersonau. Beth ddywed yr Apostol Paul: "Ffydd heb weithredoedd, marw yw." Ië, gallaf eich sicrhau, yn unol â'm credo i, pa le bynag y ceir gwir ffydd Gristionogol, bydd yno weithredoedd da hefyd; a pha le bynag y canfyddir gweithredoedd da, bydd yno ffydd wirioneddol hefyd, oherwydd fod y fath gysylltiad rhwng y naill a'r llall fel nas gellir eu gwahanu.

Nid ydyw y geiriau, "Beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe," yn cydfyned â thueddiadau y cyfryw ddosbarth; nac ychwaith, "Yr hwn a wybu ewyllys ei Arglwydd, ac nis gwnaeth,

a gurir â llawer ffonod." O, na; gwell ganddynt gredu yn llythyrenol i'r lleidr ar y groes gael myned i ogoniant, ac i'r gweithiwr ar yr unfed awr ar ddeg yn y winllan fod yn gyfer-byniol i edifeirwch gwely angeu; ac nid oes caniatad i neb roddi esboniad gwahanol i'r brawddegau. Pechod anfaddeuol fuasai dyweyd nad ydyw yr holl Feibl o dan Ddwyfol ysbrydoliaeth, o ddechreu Genesis i ddiwedd Datguddiad: ïe, ac fod yn rhaid ei gredu oll, heb son am gysondeb—rhaid cau yr ysbryd ymchwil-iadol a'r awyddfryd am wybodaeth uwch mewn celloedd tan-ddaearol.

Gan fod angen ychwaneg o arian eto, cyn gorphen yr oll fel ag y dymunem, carem i'r cyfryw ag sydd yn bwriadu cynorthwyo i anfon eu tanysgrifiadau mor fuan ag y byddo modd, a chaiff rhestr o'r oll ymddangos ar glawr yr YMOFYNYDD mor fuan ag y byddo Mr. Golygydd yn caniatau. Dymunaf i chwi oll Flwyddyn newydd dda, a lluaws ohonynt.

Yr eiddoch yn ostyngedig, dros yr eglwys,

Llwyneinion, Rhagfyr 22ain, 1899. JOHN BOWEN.

O.Y.—Mae yn dda genyf eich hysbysu fod y Parch. J. Williams ar wella, ac yn dechreu myned oddiamgylch, er ein mawr lawenydd.

Y PREGETHWR.

GENAD Duw mewn dysg yn dŵr,—ar wynfryn
Ei fro yw'r Pregethwr;
Cloch aur Ion, Beibl-esboniwr,
Pur iach ei sêl,—parchus wr.

Clydach. PERLLANOG.

MANION AC HANESION.

YN *Cymru* am Tachwedd, ceir erthygl ardderchog iawn ar "Un o Ferched Cymru," gan Mr. Ifano Jones, o Gaerdydd. Y ferch yr ysgrifenir mor odidog am dani yw y ddiweddar Mrs. Jones, Broniestyn, Aberdar, ac mae Ifano yn talu gwarogaeth uchel i'r ymadawedig fel menyw, fel mam, ac fel un a lafuriodd mor dda dros bob peth sydd ddyrchafol.

YMDDIHEURAD.—Diolch i'r cyfaill am gyfeirio at wallau yn rhestr tan-ysgrifwyr eglwysi Pantydefaid a Llwyn-rhydowen. Y mae tri o enwau yn rhestr Pantydefaid ddylasent fod yn rhestr Llwynrhydowen; a rhyw wyth yn rhestr Llwynrhydowen ddylasai fod yn un Pantydefaid. Y mae hyn, wrth gwrs, yn gwneyd cryn wahaniaeth yn nghyfanswm y ddwy eglwys. Pan

gyhoeddodd Dr. Johnson ei Eiriadur bydenwog, cyfeiriodd rhyw foneddiges ei sylw at ryw wall dybryd oedd wedi llithro iddo, gan ofyn, mewn syndod, pa fodd yr oedd yn cyfrif am yr amryfusedd? Ei atebiad oedd — "Anwybodaeth, *madam;* dwfn anwybodaeth." Dyna fy unig esgusawd inau. Henffych!—*Dafydd Rees.*

LWYDDIANT.—Bydd yn dda gan ei holl gyfeillion, ac, yn wir, gan bob Undodwr, i glywed am lwyddiant diweddar Mr. Tom Evans, mab Mr. Thomas Evans, Tynant, Ceredigion, yr hwn sydd newydd enill y gradd o M.B. yn Mhrifysgol Llundain. Mae hwn yn deitl nad oes ond ychydig mewn cymhariaeth o feddygon ein gwlad yn feddianol arno, ac y mae y ffaith fod Mr. Evans wedi ei enill yn adlewyrchu clod mawr arno. Ac nid dyma yr unig lwyddiant sydd i'w gofnodi am dano. Ar ddiwedd y tymhor (mis Gorphenhaf diweddaf), yn Ysbyty Coleg y Brifysgol, Llundain, darfu iddo gario ymaith ddwy fedal aur ac un arian mewn cystadleuaeth agored i fyfyrwyr yr Ysbyty, fel y canlyn: Fellows Gold Medal in Clinical Medicine; Gold Medal in Medical Jurisprudence; Silver Medal in Public Health; a 1st Class "Honour Certificate" in Practical Surgery. Mae Mr. Evans ei hun, fel y mae y rhan fwyaf o'n darllenwyr yn gwybod, yn un o golofnau cadarnaf yr achos Cymreig yn Llundain, ac wedi gwneyd llawer iawn i'w gadw i fyny a'i hyrwyddo yn y blaen yn ystod ei arosiad yn y Brifddinas. Ein dymudiad goreu yw y bydd iddo gael bywyd ac iechyd eto am hir amser i wasanaethu ei gydwladwyr a'i gydgrefyddwyr fel y mae wedi gwneyd yn y gorphenol.

DOWLAIS.—Yr ydym yma yn ystod y mis diweddaf — Rhagfyr — wedi cael cyfres o ddarlithiau ar destynau neillduol. Cafwyd y gyntaf gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefn, ar y testyn, "Pechod a'i Faddeuant." Traddodwyd yr ail gan leygwr, yr hwn ydoedd Mr. T. J. Thomas (Sarnicol), B.Sc., un o athrawon yr Ysgol Ganolraddol, Merthyr, ar y testyn, "Gwyddoniaeth a Chrefydd." Rhoddwyd y drydedd gan ein gweinidog, y Parch. J. E. Jenkins, ar y testyn, "Duw." Yr oedd y Parch. D. Rees, Pentre Ystrad, i derfynu y gyfres ar y testyn, "Paham y daethum yn Undodwr?" ond trwy ryw amgylchiadau annysgwyliadwy, cafodd ei atal rhag talu ymweliad â ni, er ein mawr siomedigaeth. Mwynhawyd y darlithiau a gafwyd yn ardderchog. Yr oedd y darlithiau yn ddyddorol dros ben, a chafwyd cynulliadau tra lluosog hefyd i wrando arnynt a'u mwynhau, er fod y tywydd dipyn yn anffafriol, a mwy nag arfer, i raddau annymunol iawn, mae'n ddrwg genym ddyweyd, o afiechyd a marwolaethau yn y lle. Yr ydym yn hyderu y bydd ffrwythau toreithiog i ymddangos ar ol ymdrechion trylwyr y darlithwyr, pa rai oeddynt ar eu goreu, gallwn feddwl, yn ymdrin â'r pynciau oedd ganddynt mewn llaw, ac yn ceisio creu ychydig yn rhagor o frwdfrydedd ynom, yn yr hyn yr ydym yn ddiffygiol, i raddau pell iawn, yn gyffredin fel enwad, er gwaethaf y modd. Da iawn genym ddywedyd, hefyd, fod cymdeithas, yr hon sydd i barhau, fel yr ydym yn gobeithio, drwy dymhor y gauaf, wedi ei ffurfio, yn mha un y mae ein pobl ieuainc, yn fwyaf neillduol, yn cael cyfle i ddangos eu talentau, drwy ddarllen papyrau a siarad ar bynciau gwahanol y dydd. Y mae aelodau o'r gymdeithas hon yn cyfarfod unwaith bob wythnos, ac yn dangos eu bod ar eu heithaf i'w gwneyd yn llwyddiant hollol.

TREBANOS.—Yn Ysgoldy y Bwrdd, cafwyd cyfarfod adloniadol llawen a difyrus nos Nadolig. Dyweder a fyner, mae ambell oedfa fel yma yn amheuthyn blasus i gorff ac enaid. Yr oedd y gwasanaethyddion yn lluosog, a diolchir i'r oll yn fawr. Chwareuodd y seindorf arian yn feistrolgar yno, dan arweiniad Mr. T. Hanney. Un o'r pethau doniolaf yno oedd y "German Band." Pe byddai hwn yn ymgeisio yn nghystadleuaeth Treforis a Llanelli, gwae fyddai i'r seindyrf ereill i gyd. Son am donyddiaeth a chynghanedd mewn cerddoriaeth, y "German Band" am dani, *boys!* Hefyd, yr un dydd, rhoddwyd *Christmas Tree*, yn cynwys teganau amrywiol, i'r plant, gan y Parch. T. J. Jenkins ac ereill; ac aeth y plant ymaith â gwên Nadoligaidd ar eu gwynebau. Gosodwn gadwen o ddiolchgarwch am yddfau y cadeirydd, a'r arweinydd, a phawb ereill wasanaethasant yn y cyfarfod crybwylledig. Mae dymuniad cryf gan bawb am wneyd trefniadau newyddion i gadw trefn a gweddusrwydd moesgarol mewn cyf-

arfodydd o hyn allan. Nid dymunol gweled gormod o anhrefn mewn cyfarfodydd adloniadol.—Diau y bydd yn llawen gan luaws darllenwyr yr YMOFYNYDD, yn agos a phell, ddeall am lwyddiant mawr seindorf arian Trebanos. Darfu iddo gipio tair gwobr dda adeg y gwyliau diweddaf, yr oll yn ddeg gini, mewn mater arianol. Dywedodd Mr. Walker, o swydd York, i'r seindorf lyfu y wobr gyntaf, yn Nhreforis, ond yr ail wobr ordeiniwyd iddo, allan o saith o seindyrf.—Eto, yr un dydd, gwynebodd yr un seindorf tua chystadleuaeth fawr Llanelli, a daeth Trebanos allan yn ail yn yr Ymdaith (*March*), ac yn drydydd ar y *Selection*. Yr oeddem mor falch pan glywsom, fel y darfu i ni ddyweyd wrth ein cymydogion drws nesaf ar amrantiad. *Bravo! excellent!* "Let the trumpets sound again and again!" I'r làn eto ydyw dymuniad calon miloedd, heblaw—*Soprano.*

Y GRAIG A GELLIONEN. — Ymgymerwyd â chynal cyfarfod adroddiadol yn y Graig ychydig wythnosau yn ol, yn fwyaf neillduol i'r plant. Darfu i amryw mewn oed wasanaethu hefyd. Sylwasom gyda'r edmygedd gwresocal ar y plant bychain yn myned dros "Hanes Joseph" yn ddymunol dros ben. Rhaid fod yr hwn a'u haddysgodd wedi bod wrthi yn ddi-ildio, cyn y gallai y plant roddi atebion iddo mor ddidaro a pharod. Gan i raglen y cyfarfod crybwylledig fyned yn rhy faith, penderfynwyd gohirio y gweddill hyd y Sabbath dilynol, pryd y dosbarthwyd tystysgrifau i'r rhai fuont yn llwyddianus yn yr arholiad diweddaf. Cafwyd unawdau, areithiau, ac adroddiadau pwrpasol iawn yn y ddau gwrdd. Gan i bawb wneyd eu gwaith mor dda, carem grybwyll y dylid ymdrechu cynal y cyfarfodydd hyn yn gyson bob tri mis, er llwyddiant yr achos a dadblygiad talentau yn gyffredinol. Diolcha pawb i'r gweinidog, y Parch. T. J. Jenkins, am lywyddu ac arwain mor ddeheuig a naturiol.

PRIODASAU A MARWGOFION.

RHAGFYR 18fed, yn swyddfa y Cofrestrydd yn Merthyr, David Jones â Margaret Williams, y ddau o Gefncoedycymer, a'r briodasferch yn aelod ffyddlon yn yr Hen Dy Cwrdd.

Fe ddaliwyd Dafydd fwynlon
Gan swynion Maggie fàd,
Eu hoes fo i'r ymylon
Yn llawn o wir fwynhad.'

TACHWEDD 22ain, ar ol cystudd byr, yn 87 mlwydd oed, Sarah Davies, Maesllan, Pencareg, gweddw y diweddar David Davies, Penlanisaf, Llanwenog, Claddwyd yn mynwent Llanwenog. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ, gan y Parch J, Davies, Alltyplaca.

TACHWEDD 26ain, William Griffiths, o'r Royal Stores, Roath, Caerdydd, gan adael naw o blant heb dad na mam. Claddwyd yn *Cemetery* Aberdar; y Parchn. Tyssul Davies, B.A., a J. Joseph George, yn gwasanaethu.

TACHWEDD 30ain, ar ol cystudd hir, yn 22 mlwydd oed, Martha, anwyl ferch Mary Williams, Plasbach, Llanbedr. Claddwyd yn nghladdfa'rteulu yn Mynwent Llanwnen. Gweinyddwyd ar yr achlysur galarus yn y tŷ, gan y Parch. J. Davies; gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. E. Evans, Soar; a chyflawnwyd y gweddill o'r gwasanaeth yn yr Eglwys a'r fynwent, gan offeiriad parchus y plwyf. Yr oedd yr angladd yn lluosog ac yn barchus iawn; yn ddangoseg amlwg o'r cydymdeimlad a fynwesid gan gylch helaeth o gyfeillion tuag at deulu sydd fel hyn mor fynych yn gorfod yfed dyfroedd chwerwon. Cyflwynwn y gweddill ohonynt i ofal y Tad goreu.

RHAGFYR 2il, Morgan Howell, mab Mr. T. Dawkin Williams, Bryngwyn, Aberdar, yn 31 mlwydd oed. Saer maen (*stone-cutter*) oedd wrth ei gelfyddyd, a dyn ieuanc o rodiad hardd, parchus yn ei gymydogaeth, a hoff gan bawb a'i adwaenai. Fe'i torwyd i lawr yn ddisymwth iawn gan enyniad yn yr ymys-

garoedd, yn cael ei ganlyn gan enyniad yn yr ysgyfaint. Claddwyd yn y *Cemetery*, y Parchn. R. J. Jones, M.A., a'r ficer, Mr. Bevan, St. Fagans, yn gwasanaethu.

"Yn Nuw, pa faint, ac yn mha wedd,
Cawn wybod hyn tu draw i'r bedd."

RHAGFYR 11eg, yn 56 mlwydd oed. Anne, anwyl briod Rees Rees Pleasant View, Llanfihangel-ar-Arth, unwaith o Aberdar. Claddwyd yn mynwent eglwys Pencader. Gwasanaethwyd yn y tŷ, gan y Parch. J. Davies, Allityplaca. Yr oedd i'r ymadawedig air da gan y rhai a'i hadwaenent oreu. Gweined hyn gysur i'r galarwyr ar ei hol.

RHAGFYR 16eg, yn Mhont Senni, Sarah Evans, yn 35 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r diweddar James Evans, teiliwr, Overton Street, Dowlais, ac yn Nowlais yr ymgartrefai hithau, gyda'i chwaer a'i brawd, hyd nes iddi yn ddiweddar symud am ryw dymhor i Bont Senni, yn y dysgwyliad y cai hi well iechyd. Yr oedd wedi dyoddef am flynyddau oddiwrth glwyf yn yr ystumog; ond er ei holl nychdod a gwendid, yr oedd ei hysbryd yn gryf, a'i thymher yn ysgafn a llon. Merch ieuanc o fywyd prydferth oedd Miss Evans, gofalus iawn am helynt ei chwaer a'i brawd, i'r rhai y bu fel mam dda, a hwythau yn ordyner tuag ati hithau, yn gweini arni gydag anwyldeb yn ei chystudd hir. Ni bu teulu erioed yn fwy hapus, ac yn fwy hoff o'u gilydd, na'r teulu hwn; ac yn awr mae bwlch wedi ei wneyd a thristwch mawr ar ol un a anwylid mor fawr. Y dydd Iau canlynol darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. Hathren Davies, ac yna dygwyd ei gweddillion i fynwent yr Hen Dŷ Cwrdd, Cefn, lle y gorphwys gweddillion ei thad a'i mam. Gwasanaethwyd yn y capel gan y Parchn. J. E. Jenkins, Dowlais; E. T. Jones (B.), Pont Senni; a Hathren Davies. Duw a ddyddano y brawd a'r chwaer yn y tywydd garw sydd wedi dyfod arnynt a thywyned Ei wyneb arnynt.

RHAGFYR 17eg, yn 78 mlwydd oed Gwenllian Thomas, Pontardawe (gynt o Trebanos). gweddw y diweddar Howell Thomas. Bu ein chwaer ymadawedig yn glaf ac yn dyoddef yn ymarhous er's llawer dydd. Bu yn fam garedig a thynergalon, ac yn aelwyd-feistres wybodus i'r rhai bychain fuont dan fantell ei gofal, y rhai sydd erbyn heddyw yn benteuluoedd parchus ac edmygol, ac yn troi mewn cylchoedd cymdeithasol a chrefyddol. Diau fod amryw o'i chyfoedion boreuol yn fyw, ac yn cofio mai hi ydyw yr olaf o deulu lluosog Penyrallttwen, ger Pontardawe. Aeth y teulu hwn, un ar ol un, ymaith, a chafodd hithau gyfnerth i ddal i weled cuddio ei brodyr a'i chwiorydd yn meddau daear, ond dyma yr olaf wedi myned atynt i orphwys mewn heddwch. Mae ei chofio yn myned oddiamgylch yn dwyn adgofion melusion i galon y sawl fedda lygad i weled, a chalon i deimlo egwyddor ei phersonoliaeth ysbrydoledig. Rhinweddau daionus ei hymarweddiad dilychwin fyddo yn allu cryf i ledu cortynau preswylfeydd crefydd yn mhob rhanbarth Cristionogol y cyffiniau. Y dydd Iau canlynol, cymerwyd y materol glai i Gladdfa henafol Gellionen. Gweinyddwyd yn dyner a melus gan y gweinidog, y Parch. T. J. Jenkins, gyda sylwadau grymus, ac ynddynt wersi byw. Tang efedd yr Hollalluog Dduw osodo ei ddwyfol wedd ar y plant a'r perthynasau bob un, fel y byddo ymadawiad ein chwaer yn dwyn cysur a llawenydd i bob mynwes.

Rhaid ffarwelio ar y ddaear,
Rhaid yw tori trwy y caddug,
Rhaid i gynllun bendigedig
Duw y duwiau fod yn alar!
Rhaid yw derbyn dŵwch angau
Er mwyn gwynu ffyrdd yr Arglwydd;
Rhaid esbonio tragwyddolrwydd
Trwy eangder ei syniadau!

RHAGFYR 18fed, Anne Jenkins, Cwm, Dowlais, yn 73 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn fam i Mrs. Morgan Evans, Wellington, Dowlais, ac yn ffyddlon gyda r achos Undodaidd yn y lle. Ni bu yn glaf ond am ychydig ddiwrnodau. Claddwyd ei rhan farwol y Sadwrn canlynol yn Nghladdfa Gyhoeddus y Pant, y Parch. J. E. Jenkins yn gwasanaethu.

Argraffwyd gan Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr Tydfil.